

Ffyrdd o Weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Gweithredu i wella llesiant Cymru – yn awr ac yn y dyfodol



Beth mae'r taflenni ffeithiau hyn yn ei wneud?

Mae'r taflenni ffeithiau hyn yn cyflwyno pum ffordd o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Maent yn ymdrin â'r hyn y gallai'r ffyrdd o weithio ei olygu yn ymarferol, rhai o'r rhwystrau wrth geisio eu gweithredu, eu heffaith bosib ar y trydydd sector, ac adnoddau a chymorth defnyddiol i'w hystyried ymhellach.



Beth yw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol?

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ddeddfwriaeth sy'n torri tir newydd gan ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru weithio'n well gydag eraill (gan gynnwys ei gilydd a chymunedau) a gweithredu mewn modd mwy cydgyssylltiedig a hirdymor er mwyn i'w penderfyniadau gael effaith positif ar bobl yn y dyfodol yn ogystal â'r presennol.



Pam y pasiwyd y Ddeddf?

Mae Cymru'n wynebu heriau sylweddol i ddarparu ansawdd bywyd da i'w holl ddinasyddion, ac i sicrhau y bydd yr un safonau byw ar gael i genedlaethau'r dyfodol. Ymysg yr heriau hyn y mae poblogaeth sy'n heneiddio, pocedi o anweithgarwch economaidd dros genedlaethau, anghydraddoldebau iechyd, tlodi a choffrau cyhoeddus sy'n crebachu.

Rydym hefyd yn wynebu canlyniadau lleol bygythiadau byd-eang megis y newid yn yr hinsawdd, colli bioamrywiaeth ac effeithiau economi fyd-eang.



Mae'r meddylfryd y tu ôl i'r Ddeddf yn cydnabod bod angen i gyrff **cyhoeddus a'r llywodraeth weithio mewn ffordd wahanol i oresgyn y rhwystrau hyn – ffordd a fydd yn:**

- **Ystyried pob agwedd ar lesiant wrth wneud penderfyniadau – diwylliannol, cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd**
- **Helpu cyrff cyhoeddus, busnesau a chymunedau i gydweithio'n fwy effeithiol i fanteisio ar y cyfoeth o arbenigedd a gwybodaeth helaeth sydd ar gael**
- **Cydnabod a pharchu terfynau ein hamgylchedd a'n hadnoddau naturiol.**




Os oes gennych unrhyw awgrymiadau i ychwanegu at y taflenni hyn neu eu gwell cysylltwch â helpdesk@wcva.org.uk

Mae 2 brif ran i'r Ddeddf:

1. Y Nodau Llesiant

Mae'r saith nod hyn (gweler y siart ar y chwith) yn gosod gweledigaeth gyffredin i gyrff cyhoeddus weithio tuag ati.

Mae rhagor o wybodaeth am y Nodau a sut y gall mudiadau ddangos neu gryfhau eu cyfraniadau tuag atynt ar gael yn ein Taflenni Ffeithiau ar Nodau'r Ddeddf ar www.wcva.org.uk/wfga.



2. Ffyrdd o Weithio

Egwyddorion yw'r rhain y mae'n rhaid i'r cyrff cyhoeddus a nodir yn y Ddeddf arddangos yn eu penderfyniadau er mwyn dangos eu bod yn ystyried yr effaith y gallent ei chael ar bobl sy'n byw eu bywydau yng Nghymru yn y dyfodol yn ogystal â'r presennol.

Diben hyn yw dangos eu bod yn gweithredu'n unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, a ddiffinnir fel *'gweithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau'*.

Dyma'r pum ffordd o weithio:



Meddwl yn yr Hirdymor



Atal



Integreiddio



Cydwethio



Cynnwys

Rhaid i'r 44 corff cyhoeddus sy'n rhwym wrth y Ddeddf ymsefydlu'r ddwy elfen hon i gyflawni'r ddyletswydd y mae'r Ddeddf yn ei rhoi arnynt *'i ymgymryd â datblygu cynaliadwy'*.

Darllen pellach:

Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi bod yn gweithio gyda **Llywodraeth Cymru i ddatblygu Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol** ar gyfer Dylunio Gwasanaethau. Adnodd ymarferol yw hwn i helpu'r rheini sy'n gweithio i'r gwasanaethau cyhoeddus gymhwyso'r ffyrdd o weithio sydd i'w gweld yn y Ddeddf wrth ddylunio a darparu gwasanaethau.



Meddwl yn yr Hirdymor

Yn gwyno:

Osgoi byrdymhoriaeth ac ystyried sut mae penderfyniadau yn effeithio ar lesiant cenedlaethau'r dyfodol yn ogystal â'r genhedlaeth bresennol.

Y darn cyfreithiol:

Pwysigrwydd cydbwysu anghenion tymor byr â'r angen i ddiogelu'r gallu i gyflawni anghenion hirdymor hefyd, yn enwedig pan wneir pethau i gwrdd ag anghenion tymor byr sy'n gallu achosi effeithiau hirdymor niweidiol.

Pam mae'n bwysig?

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus gymryd cyfrifoldeb dros yr effaith y gall eu penderfyniadau ei chael ar bobl sy'n byw yng Nghymru yn y dyfodol.

Mae cynnwys yr hirdymor fel ffordd o weithio yn ceisio sicrhau bod pwysigrwydd cyrraedd gofynion presennol (e.e. bod tai ar gael neu fwyd môr fforddiadwy) yn cydbwysu â'r angen i ddiogelu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion, yn enwedig pan wneir pethau i gyflawni anghenion tymor byr a all hefyd gael effaith hirdymor andwyol (e.e. drwy or-bysgota'r stoc i'r fath raddau fel na ellir ei adfer neu drwy godi tai mewn ffordd a all atal cenedlaethau'r dyfodol rhag diwallu eu hanghenion am gynhesrwydd, aer glân neu fynediad at wasanaethau).

Mae'r Ddeddf hefyd yn cydnabod er mwyn gwneud penderfyniadau fydd yn addas i genedlaethau'r dyfodol yn ogystal â'r presennol, mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus ddeall pa ffactorau a all ddylanwadu ar Gymru'r dyfodol a sut mae penderfyniadau gan wahanol gyrff neu ardaloedd yn gysylltiedig â'i gilydd i leihau neu gynnal rhai tueddiadau.

Mae'r Ddeddf felly hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiad **Tueddiadau'r Dyfodol** fewn 12 mis i etholiad Cynulliad. Mae'r adroddiad yn cynnwys darogan tueddiadau tebygol o ran llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Wrth baratoi'r adroddiad, mae'n rhaid i Weinidogion ystyried amcanion datblygu cynaliadwy'r **Cenhedloedd Unedig** ac **effaith newid hinsawdd yng Nghymru**.

Gall y rhai sy'n gwneud penderfyniadau ddefnyddio'r wybodaeth yma yn sail i gydweithredu ac integreiddio – sef 2 arall o Ffyrdd o Weithio'r Ddeddf – i helpu i sicrhau bod eu penderfyniadau'n ystyried cenedlaethau'r presennol a phob un o Nodau Llesiant Cymru yn unol ag egwyddor cynaliadwyedd.



Pam mae hyn mor anodd ei wneud?

Mae edrych i'r hirdymor yn dasg heriol. Mae neilltuo amser i feddwl yn yr hirdymor yn gallu teimlo fel moethusbeth wrth orfod wynebu anghenion tymor byr enbyd, yn enwedig mewn mudiadau prysur sydd ag adnoddau a chyllideb gyfyngedig.

Mae'n rhan o'r natur ddynol i ganolbwyntio ar y tymor byr a delio gyda'r prif flaenoriaethau hyd yn oed os yw hynny ar draul cynllunio hirdymor.

Mae tasgau tymor byr yn gallu bod yn haws eu rheoli ac fe gawn foddhad o enillion cyflym a delio gyda phroblemau yn brydlon ac yn effeithlon.

Wrth reswm mae hefyd yn haws gwneud hyn pan fo'r sefyllfa o'n cwmpas yn gyfarwydd ac nad ydym yn gorfod meddwl am beth y gall pobl eraill sy'n gwneud penderfyniadau fod yn ei gynllunio neu'n ei weithredu yn barod.

Mae canolbwyntio ar yr hirdymor yn golygu delio gyda llai o sicrwydd a meddwl am sefyllfaoedd ble bydd nifer o sefyllfaoedd neu ganlyniadau yn gallu bod yn bosib.

Mae technegau sy'n cael eu defnyddio'n aml yn cynnwys **Creu Gweledigaeth a Sganio'r Gorwel**, sy'n ystyried y tebygolrwydd bod gwahanol ddigwyddiadau neu sefyllfaoedd yn digwydd a'r effaith y gall hyn ei chael ar fudiadau neu gymunedau y mae'n ei gwasanaethu.

Mae'r rhain yn aml yn edrych ar newidiadau posib, potensial, neu debygol mewn materion **STEEPLE – Cymdeithasol, Technolegol, Economaidd, Amgylcheddol, Gwleidyddol, Cyfreithiol a Moesol**.

Gellir hefyd defnyddio graffiau a thablau i ystyried, neu i ddangos i eraill, yr amseroedd ble y gall y digwyddiadau hyn gael yr effaith fwyaf neu pa duedd o blith yr holl dueddiadau sydd fwyaf tebygol o effeithio ar waith y mudiad neu fywydau'r bobl mae'r mudiad yn gweithio gyda hwy.



Pam mae hyn yn bwysig i'r trydydd sector...

Mae'r sector wastad wedi bod ar flaen y gad wrth ymateb i newid cymdeithasol ac mae'n debygol y bydd hyn yn parhau. Er hyn, yn union fel cyrff cyhoeddus, gall fod yn anodd i ni ddod o hyd i'r amser a'r adnoddau i baratoi ar gyfer goblygiadau tueddiadau'r dyfodol – megis newid hinsawdd, newid demograffig, datblygiadau technolegol a newid economaidd trafferthus – ac i ystyried effaith hirdymor ein penderfyniadau yn y cyd-destun hwn.

Mae ein gallu i wneud hyn er hynny yn dylanwadu ar ba mor dda y byddem yn gallu magu gwydnwch ar gyfer yr hirdymor a'n gallu i gefnogi cenedlaethau'r presennol yn ogystal â chenedlaethau'r dyfodol. Gallwn hefyd helpu i gefnogi cyrff cyhoeddus drwy rannu ein profiadau a'n dirnadaeth o sut y mae tueddiadau'r dyfodol yn debygol o effeithio ar grwpiau llai amlwg neu grwpiau llai clywadwy ac wrth herio penderfyniadau pe baem yn teimlo ei bod hi'n bosib neu'n debygol bod effeithiau andwyol hirdymor heb gael eu hystyried yn ddigonol.

Er na allwn ragweld y dyfodol, mae nifer o ddarnau ymchwil arwyddocaol yng Nghymru ar hyn o bryd sy'n nodi tueddiadau tebyg o ran newid yn yr economi, y boblogaeth, yr hinsawdd a lefelau o ymgysylltu â dinasyddion yng Nghymru. Gall y trydydd sector ddefnyddio'r adnoddau hyn i gyd i helpu i lywio cynllunio a meddwl hirdymor:

-
- **Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol gan Lywodraeth Cymru**
 - **Llunio eich Dyfodol WCVA**
 - **Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i lywio ei flaenoriaethau strategol**
-

Ymarferion Meddwl yn yr Hirdymor

Mae hanfod y Ddeddf yn gofyn i ni fynd i'r afael â hyn mewn 2 ffordd. Y gyntaf yw sicrhau y bydd ein penderfyniadau yn sefyll prawf amser a'n bod yn gwneud penderfyniadau wedi'u seilio ar yr hyn y disgwyliwn i anghenion yfory fod, yn ogystal ag anghenion heddiw. Yr ail yw sicrhau ein bod yn lleihau'r tebygolrwydd bod ein penderfyniadau yn cael effaith andwyol ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion.

1. Dychmygu'r dyfodol

Ystyriwch y tueddiadau a nodir uchod – newid hinsawdd, newid demograffig, datblygiadau technolegol a newidiadau economaidd trafferthus – ystyriwch sut gall y rhain effeithio ar eich gwaith mewn sefyllfaoedd gwahanol, er enghraifft:

Sut y gall pethau fod yn eich mudiad pe bai:



- **Pobl yn dechrau graddio'r profiadau gwirfoddoli yr ydych chi'n eu cynnig fel Trip Advisor**
- **Bod rhaid i'ch prosiect effeithlonrwydd ynni feddwl am ffyrdd i gadw tai yn oer yn ogystal ag yn gynnes**
- **Eich prif incwm yn ddibynnol ar gydweithio â'r cyhoedd (megis enwebiadau arlein neu bleidleisiau) neu gyllido torfol wrth i nawdd traddodiadol ddod i ben**
- **Eich sylfaen ddigonol o wirfoddolwyr yn lleihau wrth i fwy o bobl ysgwyddo cyfrifoldebau gofalu – neu efallai y bydd yn cynyddu pe bai gwirfoddoli a gefnogir gan gyflogwyr yn dod yn ffurf fwy poblogaidd o gyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol neu pe bai patrwm gwaith yn newid i adlewyrchu'r cynnydd mewn deallusrwydd artiffisial**

Tra mae angen seilio penderfyniadau ar y wybodaeth orau sydd gennym ar y pryd a'n hamcan gorau o'r byd tebygol o'n cwmpas, mae dychmygu amryw o bosibiliadau a sefyllfaoedd yn gallu ein helpu i feddwl yn fwy chwim a hyblyg. Gall hyn ein helpu i ymateb yn well i newidiadau annisgwyl, paratoi'n well ar gyfer y rhai disgwyliedig a'n helpu i wneud penderfyniadau mwy cyflawn.

Gall fod o gymorth i ystyried i ba raddau mae tueddiadau'r dyfodol – a'u heffaith bosib – yn cael eu hystyried wrth i chi wneud penderfyniadau. Gall yr ymarfer canlynol fod o gymorth a gellir ei wneud yn unigol neu mewn grwpiau.

Ystyriwch:

- **Beth yw'r broblem yr ydych yn ceisio ei datrys**
- **Pa ffactorau economaidd, diwylliannol, cymdeithasol ac amgylcheddol sy'n gwaethygu'r broblem**
- **A yw'ch datrysiad arfaethedig yn ystyried y ffactorau hyn? Os ddim, a oes angen ei addasu?**
- **Yng ngoleuni tueddiadau hysbys yn y ffactorau hynny, sut beth fydd y broblem mewn 10, 20 neu 50 mlynedd?**
- **A fydd eich datrysiad arfaethedig dal yn addas at ei ddiben?**



2. Osgoi effeithiau niweidiol hirdymor


Mae egwyddor cynaliadwyedd y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i ni gyfrannu hyd eithaf ein gallu at lesiant y dyfodol a'r presennol ym mhob un o'r 7 Nod Llesiant.

- **Wrth edrych ar eich datrysiad arfaethedig, sgoriwch rhwng -5 a +5 faint fydd eich datrysiad yn ei gyfrannu at bob Nod, neu'n ei dynnu oddi wrthynt, yn y tymor byr (0-2 flynedd), gyda 0 yn niwtral.**
- **Gwnewch yr ymarfer eto, yng ngoleuni tueddiadau hysbys y dyfodol, i ystyried effaith eich penderfyniad ar y meysydd hyn yn yr hirdymor (5, 15, 30 o flynyddoedd).**

Gall y ffynonellau gwybodaeth a chefnogaeth ar y diwedd helpu i ddeall y tueddiadau hyn os ydych angen cymorth.

Ystyriwch a ellir addasu neu newid eich datrysiad i wella unrhyw sgoriau negyddol ac ystyriwch a ellir osgoi unrhyw effeithiau hirdymor niweidiol. Mewn achosion eithafol byddwch yn canfod bod niwed hirdymor yn drech nag enillion tymor byr, ac mewn achosion o'r fath bydd rhaid ailfeddwl y datrysiad.

Mae ail-wneud yr ymarfer ar gyfer sawl maes yn eich gwaith yn helpu i ganfod effaith eich mudiad yn ehangach ar draws y Nodau ac a oes rhai Nodau penodol sy'n cael eu gorgynrychioli neu eu tangynrychioli yn gyson.



Adnoddau Defnyddiol

- **Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol** – mae Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi cyhoeddi'r fframwaith hwn i helpu prosiectau i ddatblygu mewn dull integredig a chydweithredol, yn seiliedig ar yr hyn sydd ar bobl ei angen yn awr ac yn y dyfodol.



Atal

Yn gryno:

Y ffordd y gall gweithredu'n gynnar – a gydag eraill – i fynd i'r afael ag achos craidd problemau cyn iddynt godi neu waethygu gynnig canlyniadau gwell i unigolion, cyrff cyhoeddus a chymdeithas yn ei chyfanrwydd

Y darn cyfreithiol:

Y ffordd y gallai defnyddio adnoddau i atal problemau rhag digwydd neu waethygu gyfrannu at gyflawni amcanion llesiant y corff neu amcanion corff arall

Pam mae'n bwysig?


Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus gymryd camau i atal problemau rhag codi neu waethygu i genedlaethau'r presennol neu'r dyfodol. Drwy weithio i atal problemau rhag gwaethygu, neu eu hosgoi'n gyfan gwbl, gall cyrff cyhoeddus gyflawni eu hamcanion, arbed arian a chreu canlyniadau mwy positif i ddinasyddion.

Dwy agwedd allweddol ar atal yw **canfod risgiau** a chymryd **camau cynnar** sy'n galluogi goresgyn problemau cyn iddi fynd yn anos eu datrys.

Mae cymryd camau cynnar yr un mor berthnasol i bobl ag ydyw i heriau cymdeithasol neu economaidd eang megis newid hinsawdd neu anghydraddoldeb.

Dyma pam mai un o **flaenoriaethau Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol** yw cefnogi pobl ifanc i gael y dechrau gorau mewn bywyd er mwyn eu llesiant yn y dyfodol. Yn yr un modd, buddsoddi mewn addysg gynnar yw un o'r ffyrdd o wireddu strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru, **'Ffyniant i Bawb'**.

Ceir cysylltiadau cryf rhwng atal a'r ffyrdd eraill o weithio gan gynnwys 'hirdymor', 'integreiddio' a 'chydweithio' gan y cydnabyddir bod achosion cymhleth wrth wraidd llawer o'r problemau sy'n wynebu ein cymunedau ac na all un ymyrraeth nac un gwasanaeth cyhoeddus eu datrys ar eu pen eu hunain.



Er mwyn cymryd camau ataliol mae'n bwysig deall yn llawn y risgiau posib sy'n wynebu pobl neu gymunedau a'r cysylltiadau posib rhyngddynt. Mae hyn yn gofyn am waith gyda phartneriaid ar draws gwahanol sectorau sydd efallai â gwahanol safbwyntiau ar y ffactorau sy'n cyfrannu at broblem neu'r opsiynau gorau i'w datrys.

Mae rhannu data a safbwyntiau rhwng cyrff cyhoeddus yn y ffordd hon yn cael ei annog yn y canllawiau statudol, sy'n cydnabod y gall ymyrraeth gynnar mewn materion trawsbynciol arbed amser ac arian yn ogystal â sicrhau canlyniadau gwell i ddinasyddion.

Mae'r canllawiau yn annog cyrff cyhoeddus i *'gasglu tystiolaeth sy'n deall achosion craidd materion a lle gellir sicrhau enillion o ran effeithlonrwydd'.*

Pam mae hi mor anodd gwneud hyn?


Er ein bod i gyd yn gyfarwydd â'r syniad ei bod yn well rhwystro'r clwyf na'i wella, mae pwysau ar adnoddau a'r angen dybryd i wasanaethau cyhoeddus ganolbwyntio ar ymyriadau argyfyngus yn golygu y gall yr arian sy'n cael ei wario ar atal fod yn ffracsiwn yn unig o'r hyn sy'n cael ei wario ar rannau eraill o ddarparu gwasanaethau.

Er enghraifft, dywed Cymdeithas Feddygol Prydain fod y gwariant blynyddol ar **iechyd cyhoeddus ac atal yng Nghymru rhwng 2013 a 2017 yn amrywio rhwng 2.2% a 2.6% yn unig o gyfanswm y gyllideb iechyd a gwasanaethau cymdeithasol**, er y cydnabyddir bod atal yn fwy costeffeithiol ac ariannol ddarbodus yn y tymor hwy na thriniaeth 'i lawr yr afon'.

Cymhlethir strategaethau atal ymhellach gan y ffaith y gallai fod angen i'r camau angenrheidiol i atal y problemau y mae un corff cyhoeddus neu adran yn mynd i'r afael â nhw (e.e. derbyniadau ysbyty yn sgil damweiniau ffordd) gael eu cymryd gan gorff cyhoeddus neu adran hollol wahanol (e.e. cyflwyno croesfannau i gerddwyr neu fesurau diogelwch eraill).

Yn yr un modd gallai'r arian a fuddsoddir gan un corff neu adran (e.e. awdurdodau lleol yn plannu coed ar strydoedd trefol) greu arbedion i gorff arall (e.e. Byrddau Iechyd os yw ansawdd aer gwell yn arwain at lai o broblemau anadlu) ond yn creu llai o arbedion, neu arbedion llai uniongyrchol neu amlwg, i'r corff a gymerodd y camau dan sylw.

Gall hyn arwain at dorri gwasanaethau nad ydynt yn cyfrannu mewn ffordd weledol at dargedau statudol tymor byr y corff hyd yn oed pan fydd hyn yn debygol o gyfrannu at broblemau mwy a fydd yn wynebu cyrff cyhoeddus eraill yn y dyfodol.



I lawer o fudiadau felly gall fod yn anodd dadlau i adnoddau gael eu clustnodi i wariant ataliol os yw'r materion dan sylw yn drawsbynciol, ac nid yn uniongyrchol gysylltiedig ag amcanion corff cyhoeddus neu'n pan fo'n bosib na fydd buddion yn dod i'r golwg tan y dyfodol pell.

Hyd yn oed pan fo canlyniad annymunol yn cael ei atal gall fod yn anodd dweud yn union ba ymyriadau a gafodd yr effaith fwyaf er mwyn datblygu'r arfer mwyaf costeffeithiol.

Yn yr un modd, gall fod yn anodd profi beth sydd heb ddigwydd neu brofi goblygiadau'r hyn a allai fod wedi digwydd heb gamau ataliol.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn annog cyrff cyhoeddus i geisio torri'r cylch hwn ac er nad dyma'r norm eto, ceir enghreifftiau o gyrff cyhoeddus a mudiadau eraill sydd wedi llwyddo i wneud hyn.

Mae gan y Tasglu Gweithredu Cynnar **gasgliad o astudiaethau** achos sy'n dangos y ffordd y gall cydweithio'n effeithiol i fynd i'r afael â phroblemau yn gynnar arwain at strategaethau arloesol a all arbed arian a gwella bywydau. Er enghraifft, gwella'r gwresogi yng nghartrefi pobl hŷn sydd â chlefyd cronig yr ysgyfaint.

Pam mae hyn yn bwysig i'r trydydd sector...

Cred WCVA fod trydydd sector sy'n ffynnu yn chwarae rhan hanfodol yn yr agenda atal. Credwn hyn nid yn unig oherwydd y grwpiau cymunedol a mudiadau trydydd sector di-rif sydd wedi'u datblygu naill ai i unioni problemau cymdeithasol neu eu hatal rhag gwaethygu neu'r effeithiau positif y mae'r rhain yn eu cael ar eu buddiolwyr. Mae'n ymwneud yn fwy â'r buddion i unigolion, cymunedau a chymdeithas yn ehangach a geir wrth ddod i gysylltiad â grwpiau trydydd sector, beth bynnag yw eu ffurf neu eu pwrpas, a'r profiadau o rymuso, cydweithredu a chysylltu y gallant eu cynnig.



Mae **sawl astudiaeth** wedi dangos yr effeithiau positif y mae gwirfoddoli yn ei chael ar iechyd a llesiant gan ei fod yn cynyddu cysylltiadau cymdeithasol, yn helpu i drechu arwahanrwydd ac unigedd, yn meithrin ymddiriedaeth ac yn gwella cydlyniant cymunedol.

Mae'r rhain i gyd o fudd i unigolion ond maent hefyd yn helpu i feithrin cyfalaf cymdeithasol – y term a roddir i'r rhwydweithiau a'r perthnasau cymdeithasol, a'r ffyrdd o ymddwyn a'r gwerthoedd a rennir, sy'n helpu cymdeithas i weithredu'n effeithiol.

Cydnabyddir bod cyfalaf cymdeithasol yn **ysgogi twf a chynaliadwyedd economaidd** yn ogystal â llesiant unigolion a chymunedau. Mae'n hanfodol i gymdeithas gynhyrchiol a chydlynus sydd â'r cryfder a'r gallu i ymateb i broblemau sydd eisoes yn bodoli neu eu hatal rhag gwaethygu.

Mae'r Tasglu Gweithredu Cynnar wedi pwysleisio bod *'meithrin perthnasau yn ganolog i weithredu cynnar effeithiol, boed hynny drwy gysylltu cymunedau yn well neu gynyddu ymddiriedaeth mewn gwasanaethau a'r bobl sy'n eu defnyddio.'*

Mae llawer o grwpiau trydydd sector yn cyfrannu at y gwaith hwn ac mae eu gwybodaeth leol ac arbenigol, eu gallu i fod yn gyfryngwyr y gellir ymddiried ynddynt, a'r rhwydweithiau cymdeithasol maent yn eu hwyluso, yn adnodd enfawr a all ei gwneud yn bosib cymryd camau mwy integredig, cydweithredol ac ataliol.



Adnoddau defnyddiol

- Rhwydwaith traws-sector yw'r **Tasglu Gweithredu Cynnar** sy'n darparu cymorth ac arweiniad i'r rheini sydd am weithredu dulliau ataliol, gan gynnwys yr adnoddau **'Rough Guide to Early Action'** ac **'One Hundred Days for Early Action'**
- Mae'r Gronfa Loteri Fawr, Comic Relief, Sefydliad Esmée Fairbairn, Legal Education Foundation, ac Ymddiriedolaeth Barrow Cadbury wedi rhoi prawf ar brosiectau fel rhan o'r gronfa gydweithredol **'Early Action Neighbourhood Fund'** i ddatblygu a gweithredu mentrau gweithredu cynnar ym maes cymorth i deuluoedd, llesiant pobl ifanc a chyngor cyfreithiol.
- Mae'r **Early Intervention Foundation** yn darparu tystiolaeth a chyngor ar ymyrraeth gynnar i fynd i'r afael ag achosion craidd problemau cymdeithasol i blant a phobl ifanc.
- Mae **Iechyd Cyhoeddus Lloegr** wedi cyhoeddi cyfres o flogiau ar ddadlau'r achos dros atal ac economeg iechyd
- Mae **adroddiad Grymuso Cymunedau WCVA** yn amlinellu set o chwe egwyddor a saith cam i'w cymryd i rymuso cymunedau yng Nghymru



Integreiddio

Yn gryno:

Sicrhau bod camau a gymerir mewn un maes yn cyflawni canlyniadau positif i randdeiliaid neu feysydd gwaith lluosog.

Y darn cyfreithiol:


Ystyried y ffordd y gallai amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar ei amcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill, yn arbennig pan all camau a gymerir gan y corff gyfrannu at gyflawni un amcan ond y gall fod yn niweidiol i gyflawni un arall.

Pam mae'n bwysig?

Ceir sawl diffiniad o 'integreiddio' o feysydd mor amrywiol â seicoleg i fathemateg ond y ddealltwriaeth gyffredin ohono yw proses sy'n dod â gwahanol rannau neu elfennau at ei gilydd i ffurfio uned gyflawn integrol.

O ran gwasanaethau cyhoeddus mae llawer o drafod wedi bod ynglŷn ag integreiddio, er enghraifft, rhwng iechyd a gofal cymdeithasol. Yma awgrymir y gellir sicrhau canlyniadau gwell a mwy costeffeithiol i'r gwasanaethau ac i ddefnyddwyr y gwasanaethau eu hunain pe bai'r ddwy elfen hon sy'n gorgyffwrdd yn cael eu hystyried a'u darparu gyda'i gilydd yn hytrach nag ar wahân.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus gymryd ymagwedd integredig wrth gyflawni eu hamcanion llesiant gan gydnabod y gyd-ddibyniaeth sy'n bodoli rhwng llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.




Mae'r canllawiau statudol yn nodi bod tair elfen ar wahân yn perthyn i'r gofyniad hwn:

Yn gyntaf, mae angen i gyrff cyhoeddus ystyried effeithiau positif a negyddol posib eu hamcanion ar bob nod a chanfod a ellir cryfhau neu leihau unrhyw rai o'r rhain i sicrhau'r cyfraniad mwyaf posib.

Nesaf mae angen iddynt edrych ar y ffordd y gallai'r amcanion fel cyfanwaith fod yn effeithio ar ei gilydd (a thrwy estyniad ar y Nodau) a'r ffordd y gallai llwyddiannau mewn un maes danseilio llwyddiannau mewn meysydd eraill.

Mae'r canllaw yn cyngori cyrff cyhoeddus i geisio datrys, rheoli neu liniaru unrhyw wrthdaro posib a ganfyddir yn sgil hyn. Yn ddelfrydol, byddai hyn yn golygu dod o hyd i wahanol ddulliau a fyddai'n osgoi'r effeithiau negyddol. Os nad yw hyn yn bosib yna byddai'n golygu sicrhau y gall effeithiau negyddol ar rai Nodau a achosir gan un maes o weithgaredd gael eu gwrthweithio neu eu trechu gan effeithiau positif mewn meysydd eraill.



Gallai'r corff cyhoeddus ddangos wedyn fod ei weithgareddau yn gwneud cyfraniad positif ar y cyfan. Mae'n bwysig pwysleisio, fodd bynnag, y dylai'r dull diwethaf hwn fod yn ddewis olaf yn hytrach nag yn ddewis cyntaf. Mae'r canllaw statudol yn ei gwneud yn glir nad oes hierarchaeth o nodau llesiant ac nad nod y Ddeddf yw '*cydbwysu effeithiau*'.

Dywed y canllaw bod diben integreiddio yn ymwneud â '*gweithio tuag at atebion manteisiol a nodi'r manteision lluosog lle maent yn bodoli*'.

Y trydydd cam yw i gyrff cyhoeddus ystyried effaith bosib eu hamcanion llesiant, neu eu hymgais i'w cyflawni, ar amcanion llesiant mudiadau eraill. Mae hyn yn cydnabod nad yw cyrff cyhoeddus yn bodoli ac yn gweithredu ar eu pen eu hunain ac y bydd eu gweithredoedd yn achosi canlyniadau ac effeithiau niferus, bwriadol ac anfwriadol, i lesiant o bob math.

I helpu i sicrhau bod y rhain yn bositif ble bynnag y bo modd, mae'r canllaw yn annog cyrff cyhoeddus i roi trefniadau yn eu lle i drafod eu rhaglenni gwaith â mudiadau eraill '*cyn gynted â phosib*'.

Os cymerir y camau hyn, yna bydd gan y cyrff cyhoeddus wrth fynd ati i roi'r Ddeddf ar waith siawns well, yn unigol ac ar y cyd, o sicrhau bod eu gweithgareddau yn cyd-fynd â'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r ddyletswydd i sicrhau'r cyfraniadau mwyaf posib at bob un o'r 7 Nod llesiant.




Pam mae hi mor anodd gwneud hyn?

Mae bodau dynol yn dueddol o ganolbwyntio ar y pethau sy'n effeithio arnom fwyaf ac felly ein greddf naturiol yw ystyried sut y bydd ein materion 'pwysig' ni yn cael eu datrys gan un ateb neu ddull. Gall hyn ein dallu rhag gweld effaith bosib ein hatebion ar feysydd sy'n ymddangos yn anghysylltiedig neu ein hatal rhag darganfod ateb a allai arwain at ganlyniadau positif lluosog.

Nid yw hyn bob amser yn wir wrth gwrs, ond gall yr effaith hon ddwysáu os yw pwysau ar adnoddau neu staff yn arwain at dimau neu fudiadau yn gweithio mewn seilos gan ganolbwyntio'n llwyr ar un cylch gwaith penodol, heb y gallu na'r cymhelliant i feithrin cysylltiadau allanol cryf. Gall y problemau hefyd waethygu yn sgil diffyg mynediad at dystiolaeth neu ddata ynglŷn â materion neu boblogaethau penodol.

Mae'r canllawiau statudol felly'n annog cyrff cyhoeddus i gasglu ystod o dystiolaeth sy'n 'adlewyrchu'r berthynas a'r rhyngddibyniaeth rhwng llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol' yn hytrach na chanolbwyntio ar faterion unigol.

Mae hefyd yn cynghori cyrff cyhoeddus i 'ystyried sut y gallai cysylltu gwahanol setiau data â'i gilydd helpu i dynnu sylw at dystiolaeth am y rhyng-berthynas rhwng ymyriadau neu'r effaith ar grwpiau penodol o bobl.'



Dylai ymagwedd integredig alluogi i'r cydgysylltiad rhwng materion ddod yn fwy amlwg fel y gellir canfod cyfleoedd ar gyfer ymyriadau mwy effeithiol sydd wedi'u targedu'n fwy. Fel y nodir yn y daflen ffeithiau Cydweithio, mae **Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus** yn enghraifft o'r ffordd y mae'r Ddeddf yn dod â rhanddeiliaid ynghyd o wahanol feysydd gwaith i fynd i'r afael â materion trawsbynciol a chanfod cyfleoedd cydweithredol sydd o fudd i bawb.

Dylai hyn annog datblygiad atebion integredig sy'n galluogi cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion eu hunain heb gael effaith niweidiol ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill, a ddylai wedyn sicrhau canlyniadau gwell ac ehangach ar draws y Nodau.

Pam mae hyn yn bwysig i'r trydydd sector...


Mae'r angen am atebion integredig yn gofyn am ddealltwriaeth fanwl o'r problemau y mae cyrff cyhoeddus yn ceisio eu datrys. Tra gall setiau data ac arolygon ddarparu gwybodaeth gefndirol bwysig, yn aml dim ond cysylltiad â phobl y mae'r problemau yn effeithio arnynt yn uniongyrchol a all ddarparu'r safbwyntiau angenrheidiol i ddeall eu holl achosion a chanlyniadau.

Gall grwpiau a rhwydweithiau trydydd sector fod yn borth i helpu i gael at y wybodaeth hon ac, fel yr amlinellir yn y daflen ffeithiau Cynnwys, mae ganddynt brofiad o roi prawf ar wahanol dechnegau ymgysylltu i archwilio a chasglu'r 'profiad byw' hwn sy'n peintio darlun llawer mwy cyflawn nag ystadegau neu ddata ar eu pen eu hunain.

Mae llawer o fudiadau trydydd sector wedi ymddangos mewn ymateb i broblemau lleol cymhleth ac, o gofio eu cysylltiad agos â gwirfoddolwyr a buddiolwyr, mae ganddynt yn aml ddealltwriaeth ddofn o'r materion neu'r rhwystrau trawsbynciol a allai fod yn wynebu cymuned.




Gallai eu gweithgareddau felly gwmpasu materion cydgysylltiedig amrywiol megis iechyd, arwahanrwydd cymdeithasol, tlodi ac amgylcheddau o ansawdd gwael.



Mae'n bosib y bydd y pwyslais cynyddol ar gymryd ymagwedd integredig yn golygu bod cyrff cyhoeddus yn fwy parod i ystyried a chefnogi prosiectau trydydd sector llwyddiannus a mabwysiadu rhai o'n syniadau, ein harferion gweithio a'n diwylliant.

Gallai'r pwyslais hwn hefyd helpu'r grwpiau hynny sy'n gweithio mewn meysydd sydd efallai'n cael eu hystyried yn llai pwysig neu'n llai poblogaidd i sicrhau nad yw eu blaenoriaethau, nac anghenion eu buddiolwyr, yn cael eu hanwybyddu.



Adnoddau Defnyddiol

- **Meddwl ac adrodd integredig** – mae Busnes yn y Gymuned yn darparu cyfres o offer a dulliau gan gynnwys Big Boardroom Agenda ac ystyriaeth o wahanol fathau o gyfalaf i fudiadau weithredu ac adrodd cynaliadwyedd a chanlyniadau eraill.
- **Strategaeth GEF 2020** – mae'r strategaeth hon gan Global Environment Facility yn pwysleisio'r angen i gefnogi newid trawsffurfiol a gwneud gwahaniaeth ar raddfa ehangach. Bydd y tair rhaglen – **Meithrin Cynaliadwyedd a Chydnerthedd i Ddiogelu'r Cyflenwad Bwyd yn Affrica Is-Sahara, Dinasoedd Cynaliadwy, a Dileu Datgoedwigo o Gadwyni Cyflenwi Nwyddau** – yn rhoi prawf ar ddulliau darparu mwy integredig sy'n mynd i'r afael â heriau amgylcheddol byd-eang penodol, sy'n gyfyngedig o ran amser.
- Mae gan **Swyddfa Archwilio Cymru** lawer o astudiaethau achos yn ymwneud ag integreiddio a chydweithio.



Cydweithio

Yn gwyno:

Gweithio gydag eraill, o fewn eich tîm neu'ch mudiad a'r tu hwnt, fel y gellir cyflawni cynifer o amcanion â phosib gyda'r adnoddau a'r arbenigedd sydd ar gael.

Y darn cyfreithiol:

Y ffordd y gallai cydlafurio ag unrhyw berson arall (neu wahanol rannau o'r corff yn gweithio ar y cyd) gynorthwyo'r corff i gyflawni ei amcanion llesiant, neu gynorthwyo corff arall i gyflawni ei amcanion.

Pam mae'n bwysig?

Mae cydweithio yn digwydd pan fo gwahanol bartneriaid yn teimlo y gall gweithio gyda'i gilydd gyflawni canlyniadau mwy ymatebol ac effeithiol na phe baent yn gweithio ar wahân. Gellir cyflawni hyn drwy gyfuno cryfderau a sgiliau pob partner ond hefyd pan fo'r bobl neu'r mudiadau dan sylw yn ystyried y ffordd y gallant gyfrannu at amcanion y partneriaid eraill yn ogystal â'u hamcanion eu hunain.

Wrth i fudiadau ddod at ei gilydd i weithio ar bynciau penodol – megis ymgyrch Amser i Newid neu'r Gynghrair Atal Anhrefn Hinsawdd – gellir sicrhau mwy o welededd, dylanwad a chyrhaeddiad ymysg cynulleidfaoedd newydd.

O fewn mudiadau eu hunain, mae gwaith effeithiol mewn partneriaeth rhwng gwahanol dimau neu adrannau yn meithrin cydlyniant sefydliadol ac yn helpu'r mudiad tuag at ei weledigaeth neu ei ddiben cyffredinol.

Mae hefyd yn lleihau'r perygl y gallai canlyniadau a gyflawnir gan y naill ran o'r mudiad gael eu tanseilio gan weithredoedd y llall. Gall cydweithio feithrin gallu a gwybodaeth, helpu eraill i osgoi camgymeriadau blaenorol, a chael mwy o effaith nag y gallai un mudiad, tîm neu unigolyn ei chael ar eu pen eu hunain.

Ar eu gorau, hanfod partneriaethau yw rhannu creadigrwydd, risg, adnoddau a chyfrifoldeb a thargedu tasgau at y rheini sydd fwyaf addas i'w gwneud.



Gall cydweithio alluogi buddugoliaethau cyflym, megis gwneud gweithgareddau ar y cyd na allai'r un partner unigol fod wedi'u gwneud ar eu pen eu hun; canlyniadau tymor canolig yn enwedig rhannu gwybodaeth ac adnoddau; yn ogystal â chynlluniau mwy hirdymor sy'n ystyried buddiannau pawb nid, er enghraifft, un mudiad arweiniol neu gyllidwr penodol yn unig. Yn ehangach, gall hybu gallu cymdeithasol, deallusol a gwleidyddol y partneriaid a'u gallu i ymdopi â newidiadau i gymdeithas, gwleidyddiaeth a'u sefyllfa ariannol.

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i 44 o gyrff cyhoeddus yng Nghymru weithio'n well gyda phobl a chymunedau a'i gilydd i helpu i wireddu 7 Nod Llesiant Cymru. Eglura'r Canllawiau Statudol mai diben cymryd ymagwedd gydweithredol yw *'cydnabod y gwahanol rolau y mae gyrff cyhoeddus yn ei chwarae wrth ymdrin â heriau tymor hir, a sicrhau bod camau gweithredu gan gyrff cyhoeddus yn ategu ei gilydd, sydd felly yn gwneud y mwyaf o'u heffaith gyfunol.'*



Caiff cydweithio ei hwyluso ar lefel awdurdodau lleol drwy greu **Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus**, sef awdurdodau lleol, Byrddau Iechyd Lleol, Awdurdod Tân ac Achub Cymru a chyfranogwyr gwahoddedig eraill, sy'n gorfod cydweithio i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol yr ardal. Mae pob un o'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus hyn wedi gwahodd mudiad trydydd sector i fod yn aelod o'r Bwrdd.



Rhaid i gyrff cyhoeddus hefyd ddangos eu bod yn cydweithio i gyflawni amcanion llesiant eu mudiad.

Pam mae hi mor anodd gwneud hyn?

Hyd yn oed pan fyddwn yn cydnabod gwerth cydweithio – neu'n dod o fudiadau sydd wedi ymrwymo'n bendant i egwyddor gweithio ar y cyd – nid yw hi bob amser yn hawdd.

Ymysg y pethau sy'n effeithio ar ein gallu i gydweithio y mae ein perthnasau personol; strwythurau ein mudiadau a'n rhwydweithiau; a dylanwadau cymdeithasol a gwleidyddol arnom.


Mae gweithio gydag eraill i ddatblygu neu ddylunio prosiectau yn cymryd mwy o amser ac ymdrech na phe baem yn gweithio ar ein pen ein hunain ac efallai y bydd peth cyfaddawdu neu hyd yn oed wrthdaro os ceir amrywiaeth barn ar y ffordd orau o reoli sefyllfa neu brosiect.

Mae angen i ni ymddiried yn y partneriaid yr ydym yn cydweithio â nhw i weithio drwy'r gwahaniaethau hyn a bod yn hyderus bod gennym werthoedd ac amcanion cyffredin.

Gall ein mudiadau a'n rhwydweithiau effeithio ar ein perthnasau drwy ddiffyg cefnogaeth ymysg uwch aelod o staff neu ddiffyg cefnogaeth sefydliadol, anghydnawsedd diwylliannol rhwng mudiadau, gwahaniaethau mewn pŵer, peidio â sylweddoli faint o amser ac adnoddau sydd eu hangen, dryswch ynghylch rolau a chyfrifoldebau a diffyg cytundeb ar safbwyntiau neu weledigaeth a rennir.

Ar lefel gymdeithasol a gwleidyddol, rhwystr mawr i ymddiried yn eich gilydd a bod yn gyd-ddibynol yw gwahaniaethau yn y ffordd o ddehongli beth yw cydweithio, gyda mudiadau mwy yn aml yn ymgynghori neu'n cyllido yn unig, yn hytrach na datblygu amcanion cydfuddiannol gyda'u partneriaid llai neu lai dylanwadol.

Y newyddion da yw y gallwn oresgyn y pwysau hyn ar ein perthnasau drwy gyfathrebu'n dda. Fel y dywed yr **erthygl hon gan CBS**, i gydweithio'n llwyddiannus '*rhaid fod yn dda am gyfathrebu, meithrin perthynas ag eraill a thechnegau rheoli anamlwg eraill*'.



Pam mae hyn yn bwysig i'r trydydd sector...

Mae mudiadau trydydd sector a chymunedol eisoes yn cydweithio mewn gwahanol ffyrdd, o rwydweithiau anffurfiol, i gonsortia ac mae cyllidwyr a darparwyr contractau yn disgwyl y ffordd hon o weithio yn gynyddol.

Mae'n bwysig ein bod yn deall buddion a pheryglon cydweithio ac y gallwn gyfathrebu'n effeithiol ynglŷn â'r sgiliau, yr amser a'r adnoddau sy'n aml yn angenrheidiol iddo lwyddo. Mae hefyd angen i ni gynllunio ar gyfer unrhyw hyfforddiant, profiad gwaith neu ddatblygiad sgiliau y gallai fod ar ein mudiadau eu hangen i gryfhau ein gallu i gydweithio.

Er y gall cydweithio yn aml fod yn brofiad buddiol, gall fod anfanteision hefyd ac mae angen i staff a gwirfoddolwyr fod yn hyderus y bydd peryglon a buddion cydweithio yn cael eu rhannu'n deg ac y bydd y darpar ganlyniadau yn cyfiawnhau'r amser a'r adnoddau a fuddsoddwyd.

Nid yw cydweithio yn addas i bob mudiad ym mhob achos a gall dealltwriaeth glir o'r peryglon a'r buddion posib helpu mudiadau i benderfynu ai cydweithio yw'r ffordd gywir ymlaen.

Mae NCVO wedi **cyhoeddi canllawiau arlein am ddim** sy'n ystyried y materion hyn yn ogystal â'r offer a'r rhinweddau – megis perthynas dda rhwng pobl a gweledigaeth glir a rennir o'r buddion i bawb – a all helpu i sicrhau bod cydweithio yn effeithiol a'i atal rhag methu.

Mae canllaw WCVA **Gweithio gydag eraill** yn ymdrin â'r gwahanol strwythurau y gall gweithio mewn partneriaeth eu cymryd, gan gynnwys sefydlu grwpiau llywio, cydleoli neu secondio staff neu ffurfio 'rhith-fudiad'.

Mae ei **daflenni gwybodaeth** yn egluro cydweithredu a gweithio mewn partneriaeth, perthnasau cyfreithiol ac atebolrwydd, contractau, comisiynu a thendro, rheoli ansawdd a darparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae hefyd yn darparu offer ymarferol i hwyluso cydweithio megis Rhestr Wirio Partneriaeth, cyngor ar gytundebau cydweithio a sut i sefydlu consortia i ymgeisio am grantiau neu gontractau.

Rôl Cydbenderfynu a Chydgynhyrchu


Gall cydweithio fethu yn aml oherwydd gwahaniaethau tybiedig neu wirioneddol mewn pŵer rhwng partneriaid. Os yw'r cydbwysedd pŵer i wneud penderfyniadau yn ystod prosesau dylunio neu weithredu yn anghyfartal neu os yw lleisiau rhai partneriaid yn ymddangos, yn afresymol, fel pe baent yn bwysicach nag eraill, yna gall y cydweithio deimlo'n docenistaidd ac yn ddiystyriol o'r sgiliau a'r profiad y gall partneriaid o amgylch y bwrdd eu cynnig. Gall y partneriaid hynny sy'n teimlo'r canlyniadau negyddol hyn fwyaf weithiau fod y rheini y mae ein gwasanaethau neu ein rhaglenni wedi'u dylunio i'w cefnogi, gan gynnwys dinasyddion a chymunedau.

I wrthsefyll y trafferthion posib hyn – ac annog prosiectau a gwasanaethau sydd wedi'u dylunio'n well ac sy'n fwy perthnasol – mae ffyrdd newydd o weithio yn dod i'r golwg sy'n cydnabod dinasyddion a chymunedau fel cydweithredwyr hanfodol wrth ddylunio prosiectau a'u rhoi ar waith.

Cydgynhyrchu yw un o'r rhain, sydd wedi datblygu yng Nghymru yn benodol i wella'r ffordd o ddylunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus.

Mae Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru yn ei ddisgrifio fel *'dull o weithio a seilir ar asedau sy'n galluogi pobl sy'n darparu ac sy'n derbyn gwasanaethau i rannu'r grym a'r cyfrifoldeb, ac i gydweithio mewn perthynas gydradd, gyfatebol a gofalgar.'*

Mae dull a seilir ar asedau, yn hytrach nag ar ddiffyg, yn canolbwyntio ar ba adnoddau sydd gan bobl a chymunedau neu'r adnoddau y gallant eu cynnig yn hytrach na'r hyn sydd ar goll. Enw arall ar hyn yw **Datblygu Cymunedol yn Seiliedig ar Asedau.**



Adnoddau Defnyddiol

- **Copronet.wales** – mae'r Rhwydwaith Cydgynhyrchu yn cynnal Sylfaen Wybodaeth ac ynddi becynnau cymorth, ymchwil, tystiolaeth, gwybodaeth a ffynonellau dysgu eraill ynglŷn â chydgynhyrchu
- **Good Practice Wales** - safle ar-lein un man dim-am-elw cydweithredol sydd â'r nôd o rannu arfer da a gwybodaeth yn y sector gyhoeddus yng Nghymru
- **IVAR** - adroddiadau ac ymchwil ar heriau a buddion cydweithio
- **NCVO** – adnoddau arlein am ddim ar bartneriaethau a chydwethio gan gynnwys sefydlu cytundebau gweithio a chonsortia
- **WCVA** – adnoddau arlein am ddim ar weithio gydag eraill, rhwydweithiau, comisiynu a chontractau



Cynnwys

Yn gryno:

Peidio â cheisio datrys problemau ar eich pen eich hun ond deall y buddion a geir wrth gynnwys ystod mor eang â phosib o bobl wrth lunio'r penderfyniadau a'r gwasanaethau a fydd yn effeithio ar eu bywydau.

Y darn cyfreithiol:

Pwysigrwydd cynnwys personau eraill sydd â diddordeb mewn cyrraedd y nodau llesiant a sicrhau bod y personau hynny'n adlewyrchu amrywiaeth y boblogaeth.

Pam mae'n bwysig?

Mae meddylwyr blaenllaw megis Edgar Kahn, sylfaenydd **TimeBanking**, wedi pwysleisio oferedd ceisio datrys problemau cymhleth, megis digartrefedd neu droseddu ymysg ieuenctid, heb gynnwys y bobl sy'n teimlo effaith y broblem dan sylw.

Gall y rheini yr effeithir arnynt nid yn unig rannu profiadau uniongyrchol o'u hachosion a'u heffeithiau ond hefyd y wybodaeth leol neu gymunedol i helpu i benderfynu pa ffactorau sy'n debygol o'u gwella neu eu gwaethygu, neu a allai helpu i'w datrys yn llwyr.

Mae llawer o bobl yn cytuno nad yw'r 'profiad byw' hwn wedi'i ddefnyddio ddigon wrth ddatblygu gwasanaethau cyhoeddus a pholisïau. Nid oes llawer o bobl sy'n dylunio gwasanaethau yn profi sut mae'r gwasanaethau hynny wedyn yn cael eu darparu yn y gymuned na'r effeithiau maent yn eu cael.

Drwy gynnwys pobl sydd wedi defnyddio'r gwasanaethau hyn, neu 'arbenigwyr drwy brofiad', mae potensial i fanteisio ar ffynonellau newydd o wybodaeth a safbwyntiau. Yn ogystal â chyfrannu at wasanaethau a pholisïau mwy gwybodus, gall hyn helpu dinasyddion i deimlo eu bod yn cael eu parchu ac y gwrandewir arnynt, a all yn ei dro helpu i gryfhau a grymuso cymunedau.

Adlewyrchir pwysigrwydd Cynnwys yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac mae'n ymddangos bod cyflawni llawer o'r **Dangosyddion Cenedlaethol** yn ddibynnol ar weithredu'r ffordd hon o weithio yn llwyddiannus, yn enwedig Dangosydd 23: *Y ganran sy'n teimlo'u bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol.*




Pam mae hi mor anodd gwneud hyn?

Er y ddadl argyhoeddiadol dros gynnwys dinasyddion wrth ddylunio gwasanaethau, mae hwn yn dal i fod yn faes y mae llawer o fudiadau ac asiantaethau yn cyfaddef eu bod yn ei gael yn anodd.

Mae ymgynghori yn gysyniad cyfarwydd i'r mwyafrif ac mae'n golygu gwahodd sylwadau ar gynlluniau neu brosiectau sydd eisoes yn ymffurfio neu mewn rhai achosion wedi'u penderfynu yn barod.

Serch hynny, mae hyn yn cynnwys pobl yn y cam olaf bron o'r broses dylunio prosiect neu wasanaeth pan fo'n anodd newid penderfyniadau neu ddylanwadu arnynt.



Mae llawer o'r farn ei bod yn llawer mwy cynhyrchiol, effeithlon a theg i gynnwys pobl o'r cychwyn cyntaf ac ym mhob cam o'r cylch prosiect, o ganfod angen amdano, ei gynllunio a'i ddylunio, holl ffordd at ei roi ar waith a'i werthuso.


Mae'r **Rhwydwaith Cydgynhyrchu** wedi dadlau bod hyn yn gofyn am newid mewn diwylliant ac ethos – 'Gweithio Gyda ac Nid Ar Gyfer' neu 'Gwneud Gyda ac Nid Gwneud Rhywbeth i Rywun' – yn gymaint â newidiadau mewn patrymau gweithio a mecanweithiau ymgysylltu ymarferol.

Mae sawl corff wedi datblygu '**Ysgolion Cyfranogi**' i gynrychioli'r gwahanol lefelau hyn o gynnwys, gan amlygu pethau amrywiol i'w hystyried o ran adnoddau, disgwyliadau a lefelau perchnogaeth a rheolaeth, sydd ynghlwm wrth bob un. Ceir hefyd gyrsiau hyfforddi achrededig i ddeall y dulliau hyn ymhellach a sut i symud y tu hwnt i ymgynghori at ffyrdd mwy cydgynhyrchiol o weithio.


Hyd yn oed pan fyddwn yn credu'n sicr ym mhwysigrwydd cynnwys, fodd bynnag, mae yna dal lawer o rwystrau i'w goresgyn cyn y mae'n rhan annatod o'r broses dylunio a darparu gwasanaethau. Bydd yn cymryd amser i ddeall y ffyrdd gorau o gynnwys cymuned yn ei holl amrywiaeth, o gofio y bydd gan y mwyafrif o gymunedau lawer o wahaniaethau diwylliannol, ieithyddol, demograffig a gwahaniaethau eraill. Gellir hwyluso'r broses hon drwy feithrin a chynnal perthynas ag arweinwyr cymunedol neu ddarparwyr gwasanaethau eraill, a all fod yn gyfryngwyr y bydd y gymuned yn ymddiried ynddynt.

Yn yr un modd â chydweithio, gall y pwysau i ddarparu canlyniadau ar unwaith gyda llai a llai o arian olygu ei bod yn demtasiwn i hepgor cynnwys pobl mewn ffordd ystyrlon yn gynnar yn y broses, gan gynnal proses ymgynghori fwy arwynebol pan fo'r mwyafrif o benderfyniadau wedi'u gwneud yn fewnol.

Perygl hyn yw na fydd y canlyniad yn y pen draw wedi elwa o safbwyntiau'r rheini sy'n defnyddio gwasanaethau presennol na'u syniadau i arloesi a gwneud gwelliannau. Yn waeth, gall prosesau ymgynghori anfoddhaol wneud i bobl deimlo'n rhwystredig ac yn ddi-rym a'u gwneud yn llai tebygol o fod eisiau cymryd rhan mewn prosesau tebyg yn y dyfodol.



Yn y pen draw, mae angen i ni gyd – cyrff cyhoeddus yn ogystal â mudiadau trydydd sector a chymunedau – gredu bod cynnwys dinasyddion wrth wneud penderfyniadau yn weithgaredd gwerth ei wneud a bod y buddion o ran gwasanaethau cyhoeddus mwy effeithiol a grymuso a chryfhau cymunedau yn drech na'r costau cychwynnol, yr ymdrech, yr hyfforddiant a'r amserlenni hwy a all fod yn angenrheidiol i roi mecanweithiau cyfranogi effeithiol yn eu lle.



Un ffordd i fudiadau fynd ati i wneud hyn yw gwneud cynnwys yn rhan annatod o waith bob dydd eu mudiadau a'u gwasanaethau yn hytrach na'i ystyried fel proses ar wahân i'w defnyddio pan fo'r angen yn codi. Yn aml, mae gan staff rheng flaen ymwybyddiaeth ddofn o anghenion defnyddwyr gwasanaethau a gallant gynnig llawer iawn o wybodaeth a phrofiad treiddgar. Gallant hefyd fod yn sianeli cyfathrebu effeithiol i gasglu syniadau ac adborth. Wrth gydnabod a gwerthfawrogi rôl staff rheng flaen yn y broses hon, a chanfod ffyrdd o sicrhau bod eu profiadau yn cyfrannu'n systematig at brosesau penderfynu ar lefelau eraill yn y mudiad, gellir helpu i wneud 'profiad byw' perthnasol yn rhan annatod o'r broses dylunio a darparu gwasanaethau.

Mae'r syniad hwn o gynnal deialog cyson – o fewn mudiadau a rhyngddynt hwy a'u rhanddeiliaid – yn sail i'r **Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd**, sy'n darparu canllaw cam wrth gam i gynnwys y cyhoedd mewn ffordd ystyrlon. Mae **offeryn Asesu** hefyd wedi'i ddatblygu i dimau farnu a ydych yn rhoi'r egwyddorion ar waith yn gywir ac yn y ffordd fwyaf effeithiol posib.

Pam mae hyn yn bwysig i'r trydydd sector...

Mae taer angen newid y ffordd yr ydym yn darparu gwasanaethau cyhoeddus i bobl yng Nghymru gan fod y galw am wasanaethau aciwt ar gynydd, nid yw eu cyllidebau wedi'u blaenoriaethu ac mae gwasanaethau cymunedol yn cael eu torri.

Yn 2014 argymhellodd Comisiwn Williams ar Wasanaethau Cyhoeddus ddiwygiadau amrywiol, gan nodi: *'Bydd modelau darparu newydd sy'n canolbwyntio ar atal, ymyrryd yn gynnar a rheoli galw drwy gydgynghyrchu ac ymgysylltu â dinasyddion yn hanfodol.'*



Cydnabyddir na all y sector cyhoeddus ar ei ben ei hun ddarparu ansawdd bywyd. Yn gynyddol, chwilir am bartneriaid o sectorau eraill i helpu i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus a chynnwys pobl fel dinasyddion gweithgar a gwirfoddolwyr a all gryfhau gallu cymunedau i ymdopi â lluo o bethau amrywiol o unigedd i lifogydd.

Mae gan y trydydd sector eisoes draddodiad cryf o gynnwys y bobl yr ydym yn eu gwasanaethu ac mae wedi bod yn arwain gwaith i archwilio gwahanol ffyrdd o gasglu straeon a phrofiadau unigol.

Gall fod yn anodd dirnad a chofnodi hanfod profiad byw rhywun drwy holiadur arlein neu arolwg drwy'r post ac yna ei ddehongli mewn ffyrdd a all gyfiawnhau penderfyniadau penodol. Serch hynny, mae ystod eang o offer ymgysylltu ar gael a all ein helpu i wneud synnwyr o'r hyn y mae pobl yn ei gynnig. Mae Cyngor Gwirfoddol Sirol Rhondda Cynon Taf, Interlink, wedi arddangos llawer o'r rhain drwy ei brosiect **Cynnwys ar gyfer Iechyd Meddwl** ac wedi defnyddio **Sensemaker** yn llwyddiannus yn ei brosiect Gwranddo ar gyfer Pobl Hŷn.



O ystyried perthynas y sector â'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu, a'n profiad o roi prawf ar ddulliau ymgysylltu mwy modern, efallai y gwelwn fwy o gyrff cyhoeddus yn dod atom yn amlach i fod y cyfryngwyr y mae cymunedau yn ymddiried ynddynt, rhyngddynt hwy a dinasyddion. Mae hyn yn rhan bwysig o'n rôl.

Fel sector, fodd bynnag, mae angen i ni fod yn glir bod allgymorth ychwanegol nad yw eisoes yn rhan o'n rhaglenni gwaith yn gofyn am amser, ynni ac adnoddau ychwanegol a bod angen ein cynnwys ninnau, o'r cychwyn cyntaf, wrth ddylunio unrhyw raglenni cynnwys y gofynnir i ni helpu i'w rhoi ar waith. Bydd hyn yn helpu hefyd i ledaenu diwylliant ac ethos cydgynhyrchu a galluogi i'w fuddion fod yn fwy gweledol a chael eu deall yn ehangach.

Useful Resources

- Mae Arfer Da Cymru yn cynnal y **Catalog Cydgynhyrchu** sydd ag adroddiadau ymchwil, astudiaethau achos, offer ymarferol a gwefannau. **Mae hefyd yn cynnal rhestr o adroddiadau ymchwil amrywiol ar ffyrdd amgen o gynnig gwasanaethau.**
- Mae **International Association for Public Participation (IAP2)** yn cynnig adnoddau a hyfforddiant ar gyfranogi cyhoeddus, yn enwedig datblygiad proffesiynol parhaus i ymarferwyr cyfranogi
- Elusen yw **Involve** sy'n hybu cyfranogi cyhoeddus a'i chenhadaeth yw rhoi pobl wrth wraidd penderfyniadau. Mae ei chronfa wybodaeth yn egluro gwahanol dermau a chysyniadau democratiaeth, yn chwalu chwedlau ynglŷn â chyfranogi cyhoeddus megis mae'n rhy ddrud neu'n ddiangen, ac yn darparu tystiolaeth o effaith.
- Mae gan raglen **WCVA** astudiaethau achos a phecynnau cymorth ymarferol defnyddiol ar gynnwys a'r Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd. Mae WCVA hefyd yn darparu hyfforddiant ar gynnwys.